



rhondda cynon taf  
**community infrastructure levy**  

---

*ardoll seilwaith cymunedol*

Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'i diwygiwyd)

Rheoliad 62

Adroddiad Monitro 2016/17

Cyhoeddwyd xxx 2017 (yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet)

## **Rheoliad 62 – Adroddiad Monitro 2016/17**

### **Cefndir**

Daeth Ardoll Seilwaith Cymunedol Cyngor Rhondda Cynon Taf (“y Cyngor”) i rym ar 31 Rhagfyr 2014. Mae'r Cyngor yn Awdurdod Codi Tâl ac yn Awdurdod Casglu Taliadau o ran yr Ardoll Seilwaith Cymunedol. Mae rheoliad 62 o Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Codi Tâl baratoi adroddiad blynyddol sy'n manylu ar incwm a gwariant o ran Ardoll Seilwaith Cymunedol. Dyma ail adroddiad blynyddol Cyngor Rhondda Cynon Taf sy'n cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2016 tan 31 Mawrth 2017.

### **Dyrannu Ardoll Seilwaith Cymunedol**

Mae'n ofynnol dyrannu incwm Ardoll Seilwaith Cymunedol fel a ganlyn:

- Mae modd defnyddio hyd at 5% o Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer gweithredu a gwaith gweinyddu parhaus
- Mae 15% o Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cael ei roi i'r Cyngor Tref/Cymuned mae'r datblygiad a dalodd yr Ardoll wedi ei leoli y tu mewn i'w ffiniau, er mwyn darparu gwaith gwella seilwaith lleol neu fesurau eraill ar gyfer helpu datblygu'r ardal (y cyfeirir ato fel Ardoll Seilwaith Cymunedol Lleol).
- Mae 80% o Ardoll Seilwaith Cymunedol i'w ddefnyddio ar gyfer seilwaith strategol i helpu ffyniant ardal yr Awdurdod Codi Tâl (y cyfeirir ato fel Ardoll Seilwaith Cymunedol Strategol).

### **Cyfanswm incwm Ardoll Seilwaith Cymunedol**

Cyfanswm incwm Ardoll Seilwaith Cymunedol yn 2016/17 oedd £84,731.11

Mae'r manylion am holl dderbyniadau Ardoll Seilwaith Cymunedol, a sut maen nhw'n cael eu rhannu, i'w gweld yn Atodiad A.

Ardoll Seilwaith Cymunedol Strategol 80% (i'w wario ar eitemau ar Restr Rheoliad 123)

Incwm Strategol yn 2016/17 oedd £67,872.60

Incwm Strategol a ddygwyd ymlaen o 2015/16 oedd £223,956.24

Balans incwm Ardoll Seilwaith Cymunedol Strategol £291,828.84

Ardoll Seilwaith Cymunedol Lleol 15%

Incwm Ardoll Seilwaith Cymunedol Lleol yn 2016/17 oedd £12,621.95

Mae 12 o ardaloedd Cyngor Tref/Cymuned yn Rhondda Cynon Taf, sef: Ffynnon Taf; Y Gilfach-goch; Hirwaun; Llanharan; Llanhari; Llanilltud Faerdref; Llantrisant; Pont-y-clun; Pontypridd; Y Rhigos; Tonyrefail; ac Ynys-y-bŵl.

Incwm Ardoll Seilwaith Cymunedol Lleol (15% a drosglwyddwyd i Gyngorau Tref/Cymuned) a ddaeth i law rhwng 1 Ebrill 2016 a 30 Medi 2016 oedd £6,507.42

Bydd balans o £3,896.17 a ddaeth i law rhwng 1 Hydref 2016 a 31 Mawrth 2017 yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor Tref/Cymuned perthnasol erbyn 28 Ebrill 2017.

Balans i ardaloedd heb Gyngor Tref/Cymuned yn 2016/17 oedd £2,218.36

Mae'r swm a drosglwyddwyd i bob Cyngor Tref/Cymuned wedi'i bennu yn Atodiad B.

Gwaith Gweinyddu 5%

Incwm Gwaith Gweinyddu yn 2016/17 oedd £4,236.56

Incwm Gwaith Gweinyddu a ddygwyd ymlaen o 2015/16 oedd £13,973.35

Balans incwm Gwaith Gweinyddu oedd £18,209.91

Ardoll Seilwaith Cymunedol a ddygwyd ymlaen i 2017/18

Mae swm yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a ddygwyd ymlaen i 2017/18 wedi'i phennu yn y tabl canlynol:

ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL A DDYGWYD YMLAEN	SWM
Ardoll Seilwaith Cymunedol Strategol	£291,828.84
Ardoll Seilwaith Cymunedol Lleol	£3,896.17 (i'w dalu ym mis Ebrill 2017) Ardaloedd heb Gyngor Tref/Cymuned £2,218.36
Gwaith Gweinyddu Ardoll Seilwaith Cymunedol	£18,209.91

Atodiad A – INCWM ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL YN 2015/2016

Dyddiad dod i law	Cais cynllunio Cyfeirnod	Cyfeiriad y safle	Ardoll Seilwaith Cymunedol – Math o ddatblygiad	Swm	Gwaith Gweinyddu	Strategol	Lleol (Cyngor Tref/ Cymuned)
14/04/16	15/1254	Fferm Pen-y-groes, Heol Egwysilan, Ffynnon Taf	Parth Preswyl 3	£12,871.82 Swm llawn	£643.60	£10,297.44	£1,930.78 Cyngor Tref Pontypridd
22/06/16	15/1276	What Store, Ystad Ddiwydiannol Parc Aberaman, Aberaman	A1 Manwerthu	£14,789.12 Swm llawn	£739.46	£11,831.30	£2,218.36 Ardal heb Gyngor Tref/Cymuned
01/08/16	15/1611	Fferm Castellau, Llantrisant	Parth Preswyl 3	£11,206.49 Swm llawn	£560.31	£8,965.20	£1,680.98 Llantrisant
13/09/16	13/0633	Hen Orsaf yr Heddlu, Heol Caerdydd, Ffynnon Taf	Parth Preswyl 3	£19,304.39 Rhandaliad cyntaf	£965.22	£15,443.51	£2,895.66 Cyngor Cymuned Ffynnon Taf
03/10/16	15/0388	26 Cardiff Road, Ffynnon Taf	Parth Preswyl 3	£4,976.58 Swm llawn	£248.84	£3,981.27	£746.48 Cyngor Cymuned Ffynnon Taf
03/01/17	16/0630	The Mighty Cod, 35 Stryd Taf, Pontypridd	Parth Preswyl 2	£2,278.31 Swm llawn (*yn cynnwys £584.76 o ordaliadau)	£113.91	£1,910.37	£254.03 Cyngor Tref Pontypridd
10/02/17	13/0633	Hen Orsaf yr Heddlu, Heol Caerdydd, Ffynnon Taf	Parth Preswyl 3	£19,304.39 Ail randaliad	£965.22	£15,443.51	£2,895.66 Cyngor Cymuned Ffynnon Taf

\*Nodyn: O dan Reoliad 88, ni cheir dyrannu gordaliadau i Gynghorau Tref/Cymuned, a rhaid eu hollti'n 5% at waith gweinyddu a 95% at seilwaith strategol.

Atodiad B – INCWM SEILWAITH LLEOL CYNGHORAU TREF/CYMUNED

Cyngor Tref/Cymuned	15% i'w drosglwyddo i'r cyngor lleol	Dyddiad trosglwyddo	Swm a drosglwyddwyd	Balans
Y Gilfach-goch	£0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	
Hirwaun	£0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	
Llanharan	£0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	
Llanhari	£0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	
Llantrisant	£1,680.98	30/09/16	£1,680.98	£0
Llanilltud Faerdref	£0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	
Pont-y-clun	£0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	
Pontypridd	£2,184.81	30/09/16	£1,930.78	£254.03 (talwyd ym mis Ebrill 2017)
Y Rhigos	£0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	
Ffynnon Taf	£6,537.80	30/09/16	£2,895.66	£3,642.14 (talwyd ym mis Ebrill 2017)
Tonyrefail	£0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	
Ynys-y-bŵl	£0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	
Ardal heb Gyngor Tref/Cymuned	£2,218.36 i'w wario yn Ward De Aberaman	Heb ei wario eto	Ddim yn berthnasol	£2,218.36